ofgem

cyngor ar bopeth

# YNNI

# -Y FARGEN ORAU

Mae'r llyfryn hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Oni nodir yn wahanol, mae'r wybodaeth yn berthnasol i'r tair gwlad.

Lluniwyd y llyfryn hwn gan Ofgem, Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban fel canllaw i'ch helpu i gael y fargen orau gan eich cyflenwr ynni. Mae hefyd yn egluro bod cymorth ar gael gan gyflenwyr ynni a chan y llywodraeth os ydych yn cael trafferth talu eich biliau ynni.

Mae'r holl wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir fel yr oedd yn Awst 2013.

**YNNI**
-Y FARGEN ORAU

# Cynnwys

**Adran 1**

**Sut i leihau eich costau ynni drwy newid tariff, dull o dalu neu gyflenwr**

2 Deall eich dewisiadau
4 Sut i ddod o hyd i'r fargen orau.
5 Sut i ddewis y dull talu gorau.
8 Sut i gael y fargen ynni orau.
10 Sut i arbed mwy o arian: prynu fel grŵp.

**Adran 2**

**Lle i fynd am gymorth os ydych yn cael trafferth talu eich biliau ynni**

12 Sut i gael gafael ar wasanaethau arbennig.
15 Sut i gael help i dalu eich biliau ynni.
17 Cymorth dros y gaeaf.

**Adran 3**

**Sut i arbed arian a defnyddio llai o ynni yn eich cartref**

18 Lle i gael gafael ar help.
19 Cynlluniau i fod yn fwy ynni-effeithlon ac i arbed arian.
24 Cynghorion ar arbed ynni.
26 Rhifau cyswllt y cyflenwyr ynni.
27 Rhifau cyswllt defnyddiol eraill.

Mae'r rhifau ffôn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban oni nodir yn wahanol.

# 1 Sut i leihau eich costau ynni drwy newid tariff, dull o dalu neu gyflenwr

## Deall eich **dewisiadau**

I sicrhau eich bod ar y fargen ynni orau, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'ch hun o leiaf unwaith y flwyddyn:

- A fyddai newid cyflenwr yn arbed arian i mi?
- A allwn gael budd-daliadau lles?
- Ydw i ar y tariff ynni gorau (mwyaf addas i fy anghenion)? Er enghraifft, mae tariffau ar-lein, pris sefydlog, un tanwydd a thanwydd dwbl ar gael.
- Ydw i ar yr opsiwn talu gorau? Er enghraifft, gallwch dalu gyda mesurydd rhagdalu, gydag arian parod neu siec pob chwarter neu drwy ddebyd uniongyrchol.
- A allwn gael grant i wella'r inswleiddiad ac i wneud fy nghartref yn fwy ynni-effeithlon?



© Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth

Mae'n haws heddiw nag erioed siopa o gwmpas a dewis y fargen ynni orau. Erbyn hyn mae angen i gyflenwyr:

- roi gwybodaeth gliriach i bobl am eu biliau
- rhoi datganiad blynyddol i chi'n dweud pa dariff yr ydych arno, faint o nwy neu drydan a ddefnyddiwyd gennych dros y 12 mis diwethaf gyda'r cyflenwr hwnnw, a'r amcan-gost am y 12 mis nesaf.
- rhoi cyfle i gwsmeriaid gyda mesurydd tocyn, cerdyn neu allwedd symud at rywun arall hyd yn oed os oes gennych ddyled hyd at £500 ar bob tanwydd
- nid ydynt yn cael codi mwy arnoch am un dull o dalu nag un arall, oni bai y gallant gyfiawnhau hynny ar sail y gost.

Mae Ofgem yn newid pethau yn 2014 i'w gwneud yn haws i chi gymharu tariffau a chael bargen well. Fel rhan o'r newidiadau hyn, byddwch yn derbyn gwybodaeth ar eich bil am y tariff rhataf i chi'n bersonol, a faint y gallech ei arbed.

**Gair i gall...**

Os byddwch yn siarad â staff gwerthu sy'n cnocio ar eich drws neu sydd â stondin mewn archfarchnad, mae'n bwysig i chi gofio eu bod efallai ond yn gweithio i un cyflenwr ynni, felly dim ond opsiynau gan y cyflenwr hwnnw y gallant eu dangos i chi. Mae'n bwysig bod gennych yr wybodaeth sydd ar eich datganiad blynyddol, neu eich biliau diweddaraf, wrth ystyried unrhyw fargen ynni newydd.

# Sut i ddod o hyd i'r **fargen orau**

Bydd angen yr wybodaeth ganlynol arnoch i ddechrau:

- Enw'r tariff yr ydych arno ar hyn o bryd (os na wyddoch, dylech gysylltu â'ch cyflenwr).
- Faint wnaethoch ei wario ar ynni yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Sut ydych yn talu am eich ynni ar hyn o bryd.
- Eich cod post.

Bydd yr wybodaeth hon ar eich datganiad blynyddol gan eich cyflenwr ynni, a hefyd ar eich bil. Os ydych yn derbyn y Disgownt Cartrefi Cynnes (cynllun sy'n helpu rhai pobl hŷn a/neu bobl sydd ar incwm isel), mae'n werth holi a fyddech yn dal i dderbyn y disgownt hwn os byddwch yn symud at rywun arall.

Gallwch holi eich cyflenwr ynni am hyn, neu fynd i'r wefan yma **www.adviceguide.org.uk**.

Mae gwahanol ffyrdd o gael gwybod am opsiynau ynni a allai fod yn well i chi:

- Drwy siarad â'ch cyflenwr neu fynd i'w gwefan.
- Drwy ddefnyddio un o'r gwasanaethau cymharu prisiau ar-lein cymeradwy, a restrir ar wefan Ofgem yn **www.ofgem.gov.uk**.
- Os na allwch fynd ar y we, gallwch ffonio'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ar **08454 04 05 06** (Saesneg) neu **08454 04 05 05** (Cymraeg) am daflen brisiau ar gyfer eich ardal, neu am gyngor yn gyffredinol. Ar gyfer ffôn testun, ffoniwch **18001** yna rhif y llinell gymorth.
- Ffoniwch gyflenwyr ynni eraill i gymharu opsiynau ynni (gweler tudalen 26).

# Sut i ddewis y **dull talu gorau** i chi

Mae cyflenwyr ynni'n cynnig gwahanol ffyrdd o dalu am ynni, ond mae'n bwysig i chi ystyried *anfanteision* yn ogystal â *manteision* y gwahanol drefniadau talu, cyn penderfynu ar y dull a fyddai'n gweithio orau i chi.

## Ffyrdd o dalu

### Taliadau wythnosol/pythefnosol/misol

- Taliadau llai, rheolaidd.
- Gallai rhai Swyddfeydd Post a banciau godi am ddefnyddio'r dull hwn o dalu.

  *Gallai'r opsiwn hwn fod yn addas i chi os nad oes gennych gyfrif banc, neu os ydych yn talu dyled yn ôl.*

### Mesurydd cerdyn/mesurydd tocyn/mesurydd allwedd

- Gallwch weld yn well faint yr ydych yn ei wario ar ynni.
- Os yw'r credyd yn rhedeg allan, bydd ychydig o gredyd brys ar ôl cyn i'r cyflenwad gael ei ddatgysylltu.

  *Gallai'r opsiwn hwn fod yn addas i chi os ydych am osgoi mynd i ddyled neu am reoli dyled sydd gennych yn barod.*

### Allwedd

Manteision

Anfanteision

### Tanwydd Uniongyrchol

- Mae'r tâl am ddefnyddio ynni ac unrhyw ddyled yn cael ei dynnu'n syth allan o'ch budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn mynd yn syth i'ch cyflenwr.
- Os defnyddiwch fwy na'r hyn sy'n cael ei dynnu allan o'ch budd-daliadau, bydd eich dyled yn cynyddu a hefyd eich taliadau o hynny ymlaen.

  *Gallai'r opsiwn hwn fod yn addas i chi os ydych yn cael trafferth rheoli eich arian ac yn derbyn budd-daliadau penodol.*

### Archeb sefydlog/debyd uniongyrchol misol neu chwarterol

- Mae'r tâl yr un faint a'r un amser pob mis, a allai eich helpu i gyllidebu.
- Efallai eich bod yn talu gormod neu ddim digon os yw'r biliau'n amcan-filiau.

  *Gallai'r opsiwn hwn fod yn addas i chi os oes gennych incwm rheolaidd neu gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.*

**Gair i gall...**

Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr ynni'n cynnig **tariffau prisiau sefydlog**, lle bydd pris uned ynni'n aros yr un fath drwy gydol cyfnod y fargen ynni. Gallai'r rhain fod yn rhatach na thariffau eraill ond cofiwch y bydd efallai angen i chi dalu drwy ddebyd uniongyrchol, ac y gallai eich taliadau godi os defnyddiwch fwy o ynni.

Pan ddaw'r fargen hon i ben, bydd angen i chi amseru pethau'n iawn wrth symud at fargen arall a gallech orfod talu cosb ariannol os byddwch yn symud cyn i'r fargen/cynnig presennol ddod i ben.


## Beth os wyf mewn dyled i fy nghyflenwr?

Os oes arnoch ddyled i'ch cyflenwr ynni ac rydych yn ceisio symud at gyflenwr arall, gallech ddarganfod eich bod wedi eich 'blocio gan ddyled'. Mae hyn yn golygu bod gan eich cyflenwr nwy neu drydan presennol hawl i'ch atal rhag gadael hyd nes y byddwch wedi talu'r ddyled yn ôl iddynt. Ni allwch gael eich 'blocio gan ddyled' os mai'r cyflenwr sydd ar fai am eich dyled, er enghraifft os gwnaethant gam-ddarllen eich mesurydd neu anfon bil anghywir atoch.

Os defnyddiwch eich mesurydd cerdyn, tocyn neu allwedd ac mae arnoch lai na £500 am bob tanwydd (nwy a thrydan) i'ch cyflenwr, gallwch newid cyflenwr a throsglwyddo'r ddyled i'ch cyflenwr newydd. Drwy wneud hyn gallwch efallai fanteisio ar bris is am ynni'r cyflenwr newydd a thalu eich dyled yn ôl yn gynt.

Os oes gennych ddyled gyda'ch cyflenwr nwy neu drydan ac yn cael trafferth talu, neu os na allwch gytuno ar gynllun talu gyda nhw, ffoniwch eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol, neu'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ar

**08454 04 05 06** (Saesneg) neu
**08454 04 05 05** (Cymraeg)
Ar gyfer ffôn testun, ffoniwch
**18001** yna rhif y llinell gymorth.



© Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth

# Sut i gael y **fargen ynni orau**

## Aros gyda'ch cyflenwr presennol

Os ydych yn aros gyda'ch cyflenwr presennol ond yn newid i wahanol dariff neu opsiwn talu, bydd eich cyflenwr yn gwneud y trefniadau. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â nhw a dweud wrthynt beth yr ydych eisiau ei wneud. Dylent ysgrifennu atoch yn cadarnhau manylion eich contract newydd.

## Symud at gyflenwr newydd

Os ydych wedi dewis cyflenwr newydd, dilynwch y camau canlynol:

1. Cysylltwch â'r cyflenwr i gytuno ar fargen ynni newydd.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadarnhau pa fargen yr hoffech ei chael e.e. cyfradd sefydlog
3. Dywedwch wrth eich cyflenwr presennol eich bod yn symud at gyflenwr newydd.
4. Bydd contract yn cael ei anfon atoch – dylech wneud yn siŵr ei fod yn gywir a chadarnhau'r dyddiad y byddwch yn symud.
5. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi talu holl filiau eich cyflenwr presennol.
6. Darllenwch y mesurydd ar y diwrnod rydych yn newid cyflenwr er mwyn i chi allu gwirio eich biliau.

**1 Cysylltu â'r cyflenwr i gytuno ar fargen ynni newydd:** gallwch wneud hyn wyneb-yn-wyneb gydag un o'r staff gwerthu, dros y ffôn neu ar y we. Ni ddylai'r broses o drosglwyddo cyflenwad o un cwmni i'r llall gymryd mwy na thair wythnos ar ôl i'r cyfnod o 14 diwrnod 'meddwl drosto' ddod i ben. Y cyfnod 'meddwl drosto' yw'r amser sydd gennych i newid eich meddwl ar ôl i chi gytuno ar fargen ynni newydd.

**2 Cadarnhau pa fargen sydd ei heisiau arnoch:** dylai'r cyflenwr gysylltu â chi i sicrhau eich bod yn deall eich bod wedi creu contract, a'ch bod yn hapus â'r ffordd y cafodd pethau eu gwerthu i chi. Mae gennych hawl i ganslo'r contract o fewn cyfnod 'meddwl drosto' o 14 diwrnod.

**3 Dweud wrth eich cyflenwr presennol:** gallwch wneud hyn drwy ysgrifennu atynt neu eu ffonio. Os nad ydynt yn gwybod eich bod eisiau symud, gallant eich blocio. Gallai fod amgylchiadau lle gall y cyflenwr presennol eich rhwystro rhag symud at gyflenwr newydd - fel arfer lle mae dyled danwydd yn bodoli ac mae eich cyflenwr presennol yn mynnu bod y ddyled yma'n cael ei thalu'n ôl cyn y gallwch symud oddi wrthynt. Os oes gennych fesurydd rhagdalu, gallwch symud os oes gennych ddyled o £500 neu lai ar bob tanwydd.

**4 Darllen y contract:** bydd contract yn cael ei anfon atoch – dylech wneud yn siŵr ei fod yn gywir a chadarnhau'r dyddiad y byddwch yn symud.

**5 Talu unrhyw filiau sydd heb eu talu:** os na wnewch hyn, gallai eich cyflenwr presennol flocio'r broses symud. Canslwch unrhyw ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog oedd yn eu lle gyda'ch cyflenwr presennol.

**6 Darllen y mesurydd:** bydd eich cyflenwr newydd yn darllen y mesurydd (neu'n gofyn i chi ei ddarllen) tua'r un amser ag y byddwch yn symud. Bydd eich hen gyflenwr yn defnyddio'r darlleniad i gyfrifo'r bil terfynol a bydd eich cyflenwr newydd yn ei ddefnyddio i ddechrau'r cyfrif newydd. Cofiwch gadw nodyn o'r darlleniad rhag ofn y bydd anghydfod yn codi. Os cewch unrhyw broblem wrth symud, gallwch naill ai ffonio eich hen gyflenwr neu eich cyflenwr newydd, neu ffonio'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ar **08454 04 05 06** (Saesneg) neu **08454 04 05 05** (Cymraeg). Ar gyfer ffôn testun, ffoniwch **18001** yna rhif y llinell gymorth.

# Sut i arbed mwy o arian:
# **prynu fel grŵp**

**Prynu a symud ar-y-cyd** – mae dod at eich gilydd fel cymdogion a chyfuno eich grym prynu i gael bargen ynni neu drydan well yn gallu bod yn fanteisiol. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/collective-switching-and-purchasing**.

**Clybiau olew** – mae ymuno â chlwb yn golygu y gallwch negodi gyda chyflenwyr i gael y pris swmp-brynu gorau am olew gwresogi. Gall y clwb helpu eich llif arian drwy adael i chi archebu llai o olew bedair gwaith y flwyddyn, ond manteisio er hynny ar brisiau swmp-brynu. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Cyngor ar Bopeth yn: **www.citizensadvice.org.uk/oilclubs**.



©Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth



Defnyddiwyd model. © Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth

# Stori Paul

## Enghreifftiau o gymorth sydd ar gael drwy'r Fargen Ynni Orau

Ar ôl mynd i un o sesiynau'r Fargen Ynni Orau, gofynnodd Paul* i'w gyflenwr presennol am fargen well ac aeth ar y we i weld beth oedd prisiau cyflenwyr eraill. O ganlyniad, cafodd ei fod yn barod ar y tariff gorau i'w sefyllfa, ond drwy newid ei ddull o dalu i ddebyd uniongyrchol y byddai'n arbed £13 y mis. Yn dilyn hynny, cysylltodd â'i landlord ynghylch gosod inswleiddio yn y tŷ. Mae ei landlord bellach wedi gwneud gwaith atal drafftiau a gosod inswleiddio ychwanegol, gan olygu nad oes raid iddo gadw'r gwres ymlaen am gyn hired. Mae hefyd wedi cynghori ei fam a'i nain i wella'r inswleiddio yn eu cartrefi hwythau ac mae cartref ei fam yn llawer cynhesach o ganlyniad.

*rydym wedi newid ei enw

# 2 Lle i fynd am gymorth os ydych yn cael trafferth talu eich biliau ynni

## Sut i gael gafael ar **wasanaethau arbennig**

Mae’r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn gynllun sy’n cynnig gwasanaethau ychwanegol am ddim os ydych mewn oed pensiwn, wedi cofrestru’n anabl, gyda nam ar eich golwg neu glyw, neu gyda salwch hirdymor. O dan y cynllun mae gennych hawl i’r gwasanaethau ychwanegol canlynol:

### Symud eich mesurydd fel y gallwch ei gyrraedd yn well

Os na allwch blygu lawr neu gyrraedd eich mesurydd rhagdalu, gallwch ofyn am iddo gael ei symud neu am gael mesurydd credyd yn ddi-dâl.

Os ydych yn cael trafferth darllen neu gyrraedd math arall o fesurydd, gallai rhai cyflenwyr ystyried ei symud i rywle mwy hwylus. Neu gallant anfon rhywun draw i ddarllen y mesurydd i chi pob chwarter.

### Cynllun cyfrinair

Gall cyflenwyr gytuno ar gyfrinair personol i’w staff ei ddefnyddio pan fyddant yn ymweld â’ch cartref, fel eich bod yn gwybod pwy ydynt.

### Cynllun enwebu biliau

Gellir anfon biliau i gyfeiriad ffrind, perthynas neu ofalwr fel y gallant helpu i drefnu’r taliad, os byddwch yn gofyn am hynny.

## Blaen-rybudd os bydd y cyflenwad trydan yn cael ei dorri

Dylai cyflenwyr gydnabod bod defnyddwyr agored i niwed efallai'n dibynnu mwy ar wasanaethau ynni (er enghraifft os ydych yn dibynnu ar drydan i redeg cyfarpar meddygol) a dylent wneud ymdrech arbennig i roi blaen-rybudd os bwriedir torri'r cyflenwad am gyfnod.

## Os caiff eich cyflenwad nwy ei dorri

Os caiff eich cyflenwad nwy ei dorri, a bod bob oedolyn yn y cartref yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, caiff cyfleusterau coginio a gwresogi amgen eu darparu mewn rhai amgylchiadau.



© www.imagesource.com

## Gwasanaethau i gwsmeriaid gyda nam ar eu golwg neu glyw

Gall cyflenwyr anfon biliau atoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, a rhaid iddynt hefyd gynnig cyfleusterau addas i ymdrin â chwynion ac ymholiadau gan gwsmeriaid sydd â nam ar eu golwg neu glyw.

I sicrhau y gallwch dderbyn y gwasanaethau ychwanegol hyn, cysylltwch â'ch cyflenwr yn uniongyrchol. Cofiwch os oes gennych wahanol gyflenwyr ar gyfer eich nwy a'ch trydan, y bydd angen i chi gofrestru gyda'r ddau.

## Archwiliad diogelwch cyfarpar nwy am ddim

Archwiliad yw hwn i sicrhau bod eich cyfarpar nwy'n ddiogel ac nad yw'n gollwng lefel niweidiol o garbon monocsid. Gallwch gael archwiliad blynyddol am ddim gan eich cyflenwr ynni os ydych yn berchen ar eich cartref ac:

- yn byw eich hun ac yn berson hŷn, anabl neu gyda salwch cronig
- yn byw gyda phobl eraill ac mae holl breswylwyr eraill y cartref yn hŷn a / neu'n anabl a / neu gyda salwch cronig
- yn derbyn budd-daliadau prawf modd ac mae gennych blentyn dan 5 oed yn byw yn y cartref.

Os ydych yn rhentu eich eiddo, eich landlord sy'n gyfrifol am ddarparu archwiliad diogelwch nwy blynyddol am ddim.

# Sut i gael help i dalu eich **biliau ynni**

Os yw eich bil yn annisgwyl o uchel, cysylltwch â'ch cyflenwr trydan neu nwy i gael darlleniad mesurydd neu i roi eich darlleniad eich hun. Gallai bil annisgwyl o uchel fod oherwydd bod y mesurydd wedi'i gam-ddarllen, neu wrth i fil cywir ddilyn nifer o amcan-filiau rhy isel. Bydd cyflenwyr ynni'n gweithio gyda chi os ydych yn cael trafferth talu eich biliau. Cofiwch gysylltu â nhw cyn gynted ag y gallwch i weld a allant helpu.

**Rheoli eich biliau ynni** – gan ddibynnu ar eich cyflenwr a'ch amgylchiadau, gallech gael help arall hefyd. Er enghraifft: ad-daliad os ydych yn hŷn, yn derbyn budd-daliadau penodol neu ar incwm isel; arian i ffwrdd oddi ar eich bil ynni; archwiliadau i weld pa fudd-daliadau lles y mae gennych hawl iddynt, a chronfeydd ymddiriedolaeth sy'n cynnig grantiau i ddileu dyled neu i brynu cyfarpar newydd er enghraifft.

**Ad-dalu dyledion** – os oes gennych ddyled gyda'ch cyflenwr, rhaid iddynt gynnig trefniant ad-dalu sy'n ystyried eich amgylchiadau ariannol ac a allwch dalu ai peidio. Er enghraifft, gallech ad-dalu eich dyled mewn arian parod neu drwy siec, drwy ddebyd uniongyrchol, yn defnyddio cerdyn talu, drwy fesurydd rhagdalu, neu drwy gynllun Tanwydd Uniongyrchol - mae mwy o fanylion am hwn ar dudalen 6 y llyfryn hwn.

**Osgoi datgysylltu** – os byddwch yn gadael i'ch dyledion ynni gynyddu, mae yna berygl y gallwch gael eich datgysylltu yn y pen draw, sy'n golygu y bydd eich cyflenwr ynni'n torri eich cyflenwad. Os bydd eich cyflenwr yn bygwth eich datgysylltu, mae rheolau llym o ran a yw cyflenwyr yn cael gwneud hyn ai peidio. Ni allant eich datgysylltu yn y chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth os ydych yn bensiynwr ac yn byw ar eich pen eich hun, neu os ydych yn byw gyda phensiynwr neu rywun o dan ddeunaw oed. Os oes pensiynwr yn byw gyda chi, dylech roi gwybod i'ch cyflenwr ynni bod yn rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i beidio eich datgysylltu. Mae'r un rheol yn

berthnasol os yw rhywun sy'n byw yn eich cartref yn anabl neu gyda salwch cronig.

Mae yna hefyd gytundeb gwirfoddol y dylech wybod amdano os ydych yn prynu eich ynni gan unrhyw un o'r chwe phrif gyflenwr. Y rhain yw Nwy Prydain, EDF Energy, E.ON, npower, ScottishPower, a Scottish & Southern Energy. Mae'r cwmnïau hyn i gyd wedi cytuno i beidio â datgysylltu cyflenwad nwy neu drydan cwsmeriaid agored i niwed, a hwythau'n gwybod eu bod, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gallwch gael eich ystyried i fod yn agored i niwed am resymau oed, iechyd, anabledd neu statws ariannol.

Ni ellir eich datgysylltu:

- os oes gennych orchymyn rhyddhad dyledion sy'n cynnwys dyledion ynni presennol. Mae gorchymyn rhyddhad dyledion yn opsiwn rhatach na mynd yn fethdalwr os na allwch fforddio â thalu eich dyledion yn ôl. Gallech dal gael eich datgysylltu os byddwch yn hel dyledion ynni newydd.
- os yw eich dyled i gyflenwr blaenorol.
- os cawsoch eich gwneud yn fethdalwr ac mae'r ddyled yn ymwneud â chyfnod cyn i chi fynd yn fethdalwr.
- os nad yw'r ddyled am y nwy neu'r trydan a ddefnyddioch ond am wasanaeth neu gyfarpar arall a brynasoch gan eich cyflenwr.

Mae cymorth penodol ar gael os ydych wedi derbyn naill ai fygythiad o ddatgysylltiad neu os cawsoch eich datgysylltu. I gael gwybod mwy am hyn, ffoniwch y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ar **08454 04 05 06** (Saesneg) neu **08454 04 05 05** (Cymraeg), neu drwy ymweld â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol. Ar gyfer ffôn testun, ffoniwch **18001** yna rhif y llinell gymorth.

# Cymorth dros y **gaeaf**

Os ydych yn hŷn neu ar incwm isel, gallech gael help gyda chostau tanwydd drwy dderbyn taliad tanwydd gaeaf neu dywydd oer.

Taliad blynyddol yw'r **Taliad Tanwydd Gaeaf** i helpu pobl hŷn gyda'r gost o gadw'n gynnes dros y gaeaf. Mae'r taliadau'n amrywio rhwng £125 a £300 gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. Os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau, bydd yn cael ei dalu'n awtomatig i chi. Os nad ydych, ffoniwch y llinell Taliad Tanwydd Gaeaf ar **08459 15 15 15** neu ewch i'r wefan yn **www.gov.uk neu www.adviceguide.org.uk**.

Mae **taliadau tywydd oer** yn helpu rhai cartrefi mewn ardal lle cafwyd tywydd anghyffredin o oer. Bydd taliad o £25 yn cael ei wneud yn awtomatig am bob saith diwrnod rhwng 1 Tachwedd a'r 31 Mawrth lle oedd y tymheredd lleol yn sero gradd Celsius neu'n is am saith diwrnod ar ôl ei gilydd. Y cartrefi cymwys yw'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau penodol. Ewch i **www.gov.uk**, **www.adviceguide.org.uk** neu i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol i gael gwybod mwy am daliadau tywydd oer.



© John Birdsall/Cymdeithas y Wasg

3

# Sut i arbed arian a defnyddio llai o ynni yn eich cartref

## Lle i gael gafael ar **help**

### Llinell Gymorth Gwres yn y Cartref

Llinell gymorth genedlaethol am ddim sy'n cael ei rhedeg gan y chwe phrif gyflenwr ynni os ydych yn cael trafferth talu eich biliau tanwydd. Mae'n cynnig cyngor arbenigol ar fudd-daliadau, grantiau i inswleiddio'ch cartref am ddim, tariffau rhatach ac opsiynau talu arbennig gan y cyflenwyr ynni. Mae'r Llinell Cartrefi Cynnes ar agor rhwng 9am-6pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener ac am ddim – **0800 33 66 99** neu ewch i'w gwefan yn www.homeheathelpline.org.uk.

### Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes

Mae rhai cyflenwyr ynni'n cynnig ad-daliad a chymorth o dan y cynllun hwn i bobl hŷn, sy'n anabl neu gyda salwch cronig neu sydd ar incwm isel. Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych yn gymwys, ewch i www.adviceguide.org.uk.

# Cynlluniau i fod yn fwy **ynni-effeithlon ac i arbed arian**

Mae gan y llywodraeth raglenni i geisio gwneud ynni'n fwy fforddiadwy drwy fod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio ynni.

- Ymrwymiad y Cwmnïau Ynni.
- Y Fargen Werdd.
- Yng Nghymru, y cynlluniau uchod a NYTH.
- Yn yr Alban, y cynlluniau uchod a Home Energy Efficiency Programme Scotland (HEEPS).



© www.imagesource.com

# Ymrwymiad y Cwmnïau Ynni

Nod y cynllun hwn yw cael bwyleri effeithlon ac inswleiddiad wedi eu gosod yng nghartrefi pobl agored i niwed drwy Brydain.

Gall eich helpu mewn tair ffordd:

- **Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon (CERO)** – help i inswleiddio waliau ceudod a soled mewn cartrefi anodd eu trin.
- **Ymrwymiad i Leihau Costau Cartrefi** – y Cynllun Cynhesrwydd Fforddiadwy – help gyda'r gost o inswleiddio'r atig neu waliau ceudod, i drwsio'r bwyler ac i brynu bwyler newydd os ydych chi neu rywun arall yn y cartref yn derbyn budd-daliadau arbennig. Rhaid i chi hefyd fod yn berchen ar eich cartref, bod â morgais neu'n denant mewn eiddo preifat.
- **Ymrwymiad Cymunedau Arbed Carbon (CSCO)** – help gyda'r gost o inswleiddio neu i brynu ffenestri gwydr dwbl os ydych yn byw mewn ardal cod post benodol neu mewn cartref incwm isel mewn ardal wledig. Mae ardal wledig yn golygu byw mewn eiddo preifat neu gymdeithasol, mewn poblogaeth o lai na 10,000 o gartrefi ac os ydych chi, neu rywun sy'n byw gyda chi, yn cael yr un budd-daliadau â'r rhai sydd eu hangen o dan y Cynllun Cynhesrwydd Fforddiadwy.

I gael gwybod mwy yng Nghymru a Lloegr, ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol. Gallwch hefyd ffonio'r **Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS)** am gyngor ac i weld a ydych yn gymwys, ar **0300 123 1234**.

I gael gwybod mwy yn yr Alban, ffoniwch **Home Energy Scotland** ar **0808 808 2282**.

# Y Fargen Werdd

Mae'r Fargen Werdd yn eich helpu i fod yn fwy ynni effeithlon yn eich cartref heb orfod talu dim ymlaen llaw. Mae'n helpu gyda phethau fel inswleiddio'r atig, ffenestri dwbl, inswleiddio drysau, goleuadau ac ynni adnewyddadwy fel paneli solar.

Mae'r gost yn cael ei thalu mewn rhandaliadau a ychwanegir at eich bil trydan, am hyd at 25 mlynedd, ac os byddwch yn symud rhaid i'r perchennog neu'r tenant newydd dalu'r gost.

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i sicrhau na fyddwch yn talu mwy'n ôl na'r ydych yn ei arbed, ond nid oes sicrwydd o hyn. Bydd yr arbedion yn dibynnu ar faint o ynni a ddefnyddir ac ar bris ynni yn y dyfodol.

Am gyngor ar y Fargen Werdd, ffoniwch y **Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS)** ar **0300 123 1234** ac ewch i'r wefan yn
**www.adviceguide.org.uk** a **www.gov.uk**.

I gael gwybod mwy yn yr Alban, ffoniwch **Home Energy Scotland** ar **0808 808 2282**.



© John Birdsall/Cymdeithas y Wasg

# NYTH (Cymru'n unig)

Nyth yw cynllun Llywodraeth Cymru i helpu cartrefi yng Nghymru i leihau eu biliau tanwydd. Gall Nyth gynnig ystod o gyngor a chymorth i chi, gan gynnwys cyngor ar sut i arbed ynni, i wneud eich cartref yn fwy ynni-effeithlon, i gael archwiliad i weld pa fudd-daliadau y mae gennych hawl i'w derbyn, a chyngor ar reoli arian. Gallwch hefyd efallai dderbyn pecyn o fesurau arbed ynni ar gyfer eich cartref, yn gwbl ddi-dâl, os ydych yn derbyn budd-dal prawf modd fel Cymorth Incwm ac yn byw mewn eiddo gyda pherchennog preifat neu wedi'i rentu'n breifat, ac mae ganddo sgôr effeithlonrwydd ynni o F neu G, sy'n aml yn digwydd gyda chartrefi hŷn a mwy. Am fwy o wybodaeth gallwch ffonio Nyth ar **0808 808 2244** neu ewch i'r wefan yn **www.nestwales.org.uk**.



© Cyngor ar Bopeth/Justin Piperger

# Home Energy Efficiency Programme Scotland (HEEPS) (Yr Alban yn unig)

HEEPS yw rhaglen Llywodraeth yr Alban a lansiwyd yn 2013 i helpu cartrefi i leihau eu biliau a gwneud eu cartrefi'n fwy ynni effeithlon. Mae'n cynnwys y cynlluniau hyn:

- Cynhesrwydd Fforddiadwy.
- Cynlluniau Seiliedig ar Ardaloedd (ABS).
- Cynllun Cymorth Ynni.
- Cynllun Mewnlenwi Nwy i helpu gyda'r gost o gysylltu i'r grid nwy.

Gan ddibynnu ar y cynllun, os ydych yn gymwys gallwch gael help gyda phethau fel y gost o inswleiddio'r atig neu waliau ceudod, i drwsio'r bwyler, i brynu bwyler newydd, atal drafftiau ac i gael thermostatau ystafell a rheolyddion gwres.

Gallwch gael mwy o fanylion am y cynlluniau hyn, cyngor effeithlonrwydd ynni, gwybodaeth am dariffau ynni rhatach a chyngor ar sut i wneud y mwyaf o'ch incwm, drwy ffonio Home Energy Scotland ar **0808 808 2282** neu ewch i'r wefan yn **www.energysavingtrust.org.uk/scotland**. Gallwch hefyd ymweld â gwefan Energy Action Scotland yn **www.eas.org.uk** am fanylion am HEEPS.

# Cynghorion ar arbed ynni

Mae amryw o bethau y gallwch ei wneud i wneud eich cartref yn fwy ynni effeithlon ac i leihau eich biliau ynni. Gallwch siarad â'ch cyflenwr ynni neu, am gyngor annibynnol ffoniwch **0300 123 1234** (yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer Cymru a Lloegr) neu **0808 808 2282** (Home Energy Scotland) neu ewch i **www.gov.uk/energyhelp**.

Cynghorion ar arbed ynni:

**1** Os yw eich gwres canolog ar 'raglennydd', gosodwch y gwres a'r dŵr poeth i ddod ymlaen ond pan fo'i angen: 30 munud cyn i chi godi yn y bore, a'i osod i ddiffodd 30 munud cyn i chi adael.

---

**2** Os oes gennych danc dŵr poeth, gosodwch thermostat y silindr naill ai i 60 gradd Celsius neu 140 gradd Fahrenheit. Fel arfer mae thermostatau silindr yn cael eu ffitio rhwng chwarter a thraean y ffordd i fyny'r silindr dŵr poeth.

---

**3** Caewch eich llenni fel mae'n nosi i atal gwres rhag dianc drwy'r ffenestri, a chwiliwch am ddrafftiau o gwmpas ffenestri a drysau.

---

**4** Trowch y golau i ffwrdd wrth adael ystafell bob tro.

---

**5** Peidiwch â gadael cyfarpar ar y golau coch a chofiwch beidio â gadael gliniaduron a ffonau symudol yn gwefru'n ddiangen.

---

**6** Wrth olchi dillad neu lestri, ceisiwch lenwi'r peiriant golchi llestri neu ddillad neu'r peiriant sychu dillad. Mae un llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni na dau hanner llwyth.

---

**7** Ceisiwch sicrhau eich bod ond yn berwi gymaint o ddŵr ag y bo angen.

---

**8** Gall tap dŵr poeth sy'n gollwng wastraffu digon o ynni mewn wythnos i lenwi hanner bath. Trwsiwch dapiau sy'n gollwng a'u diffodd yn iawn.

---

**9** Sychwch ddillad yn yr awyr agored pan fydd yn braf fel nad oes angen defnyddio'r peiriant sychu.

---

**10** Cyflawni archwiliad ynni cartref i gael gwybod sut i arbed hyd at £250 y flwyddyn ar eich biliau. I wneud archwiliad ynni cartref, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn **http://hec.est.org.uk**. Defnyddiwch yr archwiliad hwn i gael adroddiad llawn ar fanylion yr ynni a ddefnyddiwch a'r arbedion posibl.

---



© Cyngor ar Bopeth/ABCUL 2008

# **Rhifau cyswllt** y cyflenwyr ynni

| | |
|---|---|
| Nwy Prydain | 0800 072 8629 |
| Ebico | 0800 458 7689 |
| Ecotricity | 0800 030 2302 |
| EDF Energy<br>(gan gynnwys cwsmeriaid Seeboard a SWEB) | 0800 096 9966 |
| E.ON | 0345 059 9905 |
| First Utility | 01926 320 700 |
| Good Energy | 0845 601 1410 |
| Green Energy | 0800 783 8851 |
| Loco2energy | 0845 074 3601 |
| npower | 0800 073 3000 |
| OVO Energy | 0800 599 9440 |
| Scottish Hydro | 0800 980 8754 |
| ScottishPower | 0800 027 0404 |
| Scottish & Southern Energy<br>(gan gynnwys cwsmeriaid Equigas/Equipower, Atlantic, Severn Trent Energy, Southern Electric) | 0800 980 8831 |
| Spark Energy | 0845 034 7474 |
| SWALEC | 0800 980 9041 |
| The Co-operative Energy | 0800 954 0693 |
| Utilita | 0845 450 4357 |
| Utility Warehouse (a berchnogir gan Telecom Plus) | 0844 815 7777 |

Gall y chwe phrif cyflenwr ynni (Nwy Prydain; EDF Energy; E.ON; npower; ScottishPower a Scottish & Southern Energy) ddarparu gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar-y-pryd proffesiynol os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf. Ffoniwch eich cyflenwr i roi gwybod iddynt yr hoffech dderbyn y gwasanaeth hwn, neu fod aelod o'r teulu neu ffrind eisiau ei ddefnyddio – i deimlo'n hyderus yn cyfathrebu gyda'r cyflenwr.

# Rhifau cyswllt defnyddiol eraill

## Ar draws y Deyrnas Unedig

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr<br>Ar gyfer ffôn testun, ffoniwch 18001 yna rhif y llinell gymorth. | 08454 04 05 06 |
| I siarad â staff sy'n siarad Cymraeg | 08454 04 05 05 |
| Llinell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf | 08459 15 15 15 |
| Llinell Gymorth Home Heat | 0800 33 66 99 |
| Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS) | 0300 123 1234 |

## Yr Alban

| | |
|---|---|
| Home Energy Scotland | 0808 808 2282 |
| Home Energy Efficiency Programme | 0808 808 2282 |

## Cymru

| | |
|---|---|
| NYTH | 0808 808 2244 |



© Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth



Defnyddiwyd model. © Nerian/SXC

# Stori Dan

## Enghreifftiau o gymorth sydd ar gael drwy'r Fargen Ynni Orau

Mynychodd Dan* un o sesiynau'r Fargen Ynni Orau yn Derby, ac meddai "roedd nifer o bethau na wyddwn i amdanynt. Mae gennyf fab mewn oed gydag anghenion arbennig sy'n byw gyda'i wraig yn Skegness. Ni wyddwn i y dylai pobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd a chymorth incwm fod ar dariff arbennig. Felly (ac oherwydd bod gennyf Bŵer Atwrnai) rwyf eisoes wedi bod mewn cysylltiad â'u cyflenwr i addasu eu biliau i adlewyrchu hynny – mae £134 yn awr wedi'i dynnu oddi ar eu bil blynyddol o dan y Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes a thrwy ddisgownt tanwydd dwbl bychan."

*rydym wedi newid ei enw

**YNNI**

-Y FARGEN ORAU

Ymgyrch ddefnyddwyr yw'r Fargen Ynni Orau sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor ar Bopeth a'i bartneriaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr ynni domestig a staff rheng flaen (gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr) fynychu sesiwn wybodaeth am gael bargen well ar eu biliau ynni. Mae Ofgem wedi cefnogi'r ymgyrch hon ers ei lansio yn 2008.

Mae ymgyrch y Fargen Ynni Orau 2013/14 yn cael ei hariannu gan Nwy Prydain; EDF Energy; First Utility; ScottishPower; Scottish and Southern Energy.

ofgem

cyngor ar bopeth

ofgem.gov.uk

adviceguide.org.uk/cy/wales.htm